RR14 - Hybu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd elusennau a'r defnydd effeithiol o adnoddau elusennol er budd y cyhoedd

(Fersiwn 09/04)

Cynnwys

Am beth mae'r arweiniad hwn?
Cefndir
Ymagwedd y Comisiwn at y diben hwn
Atodiad A - Hybu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd cyrff sy'n elusennau eu hunain
Atodiad B - Hybu'r defnydd effeithiol o adnoddau at ddibenion elusennol gan gyrff elusennol ac anelusennol er budd y cyhoedd
Atodiad C - Y cefndir cyfreithiol i'r dibenion elusennol hyn

Am beth mae'r arweiniad hwn?

1. Mae nifer o sefydliadau sy'n hybu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd elusennau neu'r defnydd effeithiol o adnoddau at ddibenion elusennol. Pwrpas yr arweiniad hwn yw darparu meini prawf ar gyfer pennu pryd y gall sefydliadau o'r fath gael eu hystyried yn elusennol eu hunain. Rydym wedi ystyried hyn fel rhan o'n Hadolygiad o'r Gofrestr Elusennau. Rydym yn ddiolchgar iawn i bob un a gyfrannodd at yr ymgynghoriad cyhoeddus a arweiniodd at yr arweiniad hwn.

2. Rydym yn ymwybodol y bydd rhai cyrff yn cefnogi neu'n rhoi adnoddau i'r sector gwirfoddol mewn tair ffordd: 1) trwy hybu'r sector gwirfoddol cyfan (neu ran ohono); 2) trwy hybu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd elusennau; a 3) trwy hybu'r defnydd effeithiol o adnoddau elusennol. Fodd bynnag, mae'r arweiniad hwn yn ymwneud â'r meini prawf ar gyfer penderfynu a yw'r sefydliadau hynny sy'n ymgymryd ag un o'r dibenion a restrir yn 2) a 3) uchod yn elusennol. Mae'n ymwneud â sefydliadau sy'n cynnig gwasanaethau neu sy'n cefnogi elusennau neu y bydd eu gweithgareddau'n cynorthwyo sefydliadau anelusennol, yn ogystal ag elusennol, i ddefnyddio eu hadnoddau yn fwy effeithiol er mwyn cyflawni dibenion sy'n elusennol yn unig.

3. Ystyrir i ba raddau y mae sefydliadau sy'n ymwneud â hybu'r sector gwirfoddol er budd y cyhoedd yn elusennol mewn arweiniad ar wahân **Hybu'r sector gwirfoddol er budd y cyhoedd (RR13)**.

4. Derbyniwyd ers peth amser y gall sefydliadau sy'n hybu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y ffyrdd a nodir isod, mewn rhai achosion, fod yn elusennol. Yr hyn na fu'n glir yw'r meini prawf sy'n diffinio gwaith sefydliadau yn y maes eang hwn a fyddai'n golygu eu bod yn gymwys i gael statws elusennol ac, yn arbennig, y ffactorau sy'n gwahaniaethu rhwng sefydliad elusennol sy'n darparu gwasanaethau i elusennau a busnes masnachol sy'n gwneud yr un peth. Felly mae'r arweiniad hwn yn ceisio darparu canllawiau clir ar gyfer penderfynu statws elusennol sefydliadau sy'n dymuno hybu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd elusennau a hybu'r defnydd effeithiol o adnoddau gan gyrff elusennol ac anelusennol at ddibenion elusennol er budd y cyhoedd.

5. Ni fydd sefydliadau sy'n cynnig cymorth a gwasanaethau neu sy'n gweithredu fel cyfryngwr, megis gweithredu fel corff cydlynol neu gynrychioliadol, bob amser yn elusennol. Nodir yn yr arweinid hwn yr hyn a ddeallwn yw'r sail gyfreithiol ar gyfer derbyn y gall sefydliadau o'r fath fod yn elusennau eu hunain ac ym mha amgylchiadau y bydd hyn yn gymwys. Rydym wedi ystyried ar wahân hybu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd elusennau a hybu'r defnydd effeithiol o adnoddau elusennol gan gyrff elusennol ac anelusennol, gan fod angen ystyried materion gwahanol ar gyfer pob un ohonynt.

Cefndir

6. Fel ar Ionawr 2004, roedd 96 o elusennau cofrestredig gyda dibenion sy'n datgan yn glir eu bod wedi'u sefydlu i hybu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd elusennau. O'r rheiny, cofrestrwyd 86% yn y 10 mlynedd flaenorol, sy'n awgrymu bod gweithgaredd yn cynyddu yn y maes hwn. Ni wyddys faint o elusennau sydd wedi'u cofrestru dan ddibenion eraill sydd mewn gwirionedd yn ymgymryd â gweithgareddau sy'n ceisio gwella naill ai effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd elusennau eraill neu'r defnydd effeithiol o adnoddau ar gyfer dibenion elusennol gan gyrff elusennol ac anelusennol.

7. Mae elusennau cofrestredig yng Nghymru a Lloegr yn rheoli cyfanswm incwm o bron £24 biliwn. Mae gweinyddu elusennau yn gymhleth. Yn aml dibynnir ar elusennau i gyflwyno amrywiaeth fawr o wasanaethau i'r gymuned ar ran cyrff cyhoeddus, megis prydau ar glud, tai i'r rheiny mewn angen, a gofal hosbis. Mae'n rhaid i elusennau sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn rhedeg yn ddidrafferth.

8. Cydnabuwyd pwysigrwydd cyrff sy'n darparu gwasanaethau i'r sector gwirfoddol, sy'n cynnwys y sector elusennol, yn *"Adroddiad y Comisiwn ar Ddyfodol y Sector Gwirfoddol"*, a gyhoeddwyd yn 1996. Cydnabu'r adroddiad rôl y cyrff hyn o ran gwella effeithiolrwydd y sector gwirfoddol:

> *"Gall y rhain ddarparu ffynhonnell werthfawr o gyngor, cefnogaeth, hyfforddiant a chynrychiolaeth sy'n helpu hybu a datblygu effeithiolrwydd eu rhan nhw o'r sector."*[1]

9. Mae'r farn hon yn ailddatgan adroddiad cynharach ar ddyfodol sefydliadau gwirfoddol, "Adroddiad Pwyllgor Wolfendon", a noddodd eu gwerth[2].

10. Ymddiriedolwyr gwirfoddol di-dâl sy'n gyfrifol am reoli a gweinyddu elusennau yn bennaf. Nid oes gan nifer o ymddiriedolwyr unrhyw staff i'w cefnogi yn eu rôl[3]. Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr fod yn ymwybodol o ystod eang o ddeddfwriaeth a rheoliadau a chydymffurfio â'r rhain er mwyn gweinyddu eu helusennau. Oherwydd y cymhlethdod cynyddol hwn, mae mwy o sefydliadau yn cynnig cymorth a chyngor i elusennau.

---

[1] "Cwrdd â Her Newid: Gweithredu Gwirfoddol i'r 21ain Ganrif" Adroddiad y Comisiwn ar Ddyfodol y Sector Gwirfoddol, NCVO 1996 (tud. 103)

[2] "Dyfodol Sefydliadau Gwirfoddol" Adroddiad Pwyllgor Wolfenden, Ymddiriedolaeth Joseph Rowntree ac Ymddiriedolaeth y Deyrnas Unedig Carnegie 1978 (tud.116)

[3] Adroddodd "Arolwg NCVO ar Rolau Swyddi a Chyflogau yn y Sector Gwirfoddol: 1997/1998" fod llai na chwarter o'r elusennau cyffredinol yn y DU yn cyflogi staff di-dâl.

11. Mae amrywiaeth fawr o wasanaethau ar gael i elusennau. Yn y sector masnachol mae nifer o gwmnïau, yn enwedig cyfreithwyr a chyfrifwyr, yn cynnig gwasanaethau yn benodol i elusennau. Mae elusennau yn gwneud mwy o ddefnydd o dechnoleg gwybodaeth, y cyfryngau ac arbenigwyr codi arian pan nad yw'r sgiliau hyn ar gael o fewn eu sefydliad. Yn ogystal, mae mwy o sefydliadau elusennol yn cynnig cymorth i elusennau eraill.

12. Yn ogystal, mae elusennau yn ymwneud fwyfwy â darparu gwasanaethau mewn cydweithrediad â'r llywodraeth ac awdurdodau lleol i helpu bodloni eu diben elusennol cyffredinol. Mae perthynas elusennau â'r wladwriaeth yn cael ei hystyried yn fwy manwl yn ein harweiniad **Annibyniaeth Elusennau ar y Wladwriaeth (RR7)**. Efallai yr hoffech ddarllen yr arweiniad hwn ar y cyd â'r arweiniad hwn.

Ymagwedd y Comisiwn at y diben hwn

13. Yn Atodiad C isod amlinellwn yr egwyddorion cyfreithiol sy'n sail i ddwy agwedd y dibenion a ystyrir yn yr arweiniad hwn. Credwn fod yr achosion a amlinellir yn Atodiad C yn rhoi arwydd clir y gall sefydliadau sydd â'r dibenion hyn, mewn rhai amgylchiadau, fod yn elusennol. Mae wedi'i hen sefydlu yn gyfreithiol nad oes rhaid i elusen weithredu'n uniongyrchol i leddfu angen elusennol er mwyn bod yn elusennol. Fodd bynnag, rhaid cael cysylltiad rhwng gweithgareddau'r elusen a chyflawni'r diben elusennol. Rydym wedi derbyn mewn egwyddor y gallai darparu cyfleuster neu wasanaeth sy'n canolbwyntio ar neu sy'n uniongyrchol gysylltiedig â hybu diben elusennol fod yn elusennol ei hun.

14. Yn ein barn ni, mae hybu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd elusennau a'r defnydd effeithiol o adnoddau i gyflawni dibenion elusennol er budd y cyhoedd yn elusennol ac o fudd i gymdeithas, trwy gynorthwyo elusennau a sefydliadau anelusennol i wneud y defnydd gorau o'u hadnoddau er lles eu buddiolwyr. Ar gyfer sefydliadau sy'n hybu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd elusennau, rydym wedi amlinellu'r egwyddorion a'r meini prawf a ddefnyddiwn i bennu eu natur elusennol ym mharagraff **A1** Atodiad A. Ar gyfer sefydliadau sy'n hybu'r defnydd effeithiol o adnoddau i gyflawni dibenion elusennol, rydym wedi amlinellu'r egwyddorion a ddefnyddiwn i bennu eu natur elusennol ym mharagraff **B10** Atodiad B.

15. Byddwn yn parhau i sicrhau bod amcanion penodol sefydliadau sy'n ceisio statws elusennol gyda'r diben hwn yn amlinellu'n glir y dulliau y byddent yn eu defnyddio i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd elusennau.

16. Bydd rhaid i elusennau sy'n ceisio cofrestru gyda'r diben o hybu'r defnydd effeithiol o adnoddau gan elusennau a chyrff anelusennol ddangos y byddai unrhyw fudd preifat i'r cyrff hynny yn atodol i gyflawni'r diben elusennol.

17. Er nad ydym wedi delio â'r materion hyn yn yr arweiniad hwn, cânt eu hystyried yn ein harweiniad **RR8: Natur Gyhoeddus Elusen**. Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi ei ddarllen ar y cyd â'r arweiniad hwn.

ATODIAD A - Hybu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd elusennau

A1. Wrth ystyried nifer o achosion lle mae sefydliadau wedi ceisio statws elusennol ar y sail hon, cytunodd y Comisiynwyr y byddai hybu gwella effeithlonrwydd elusennau yn dderbyniol er mwyn eu cofrestru ar yr amod bod gwasanaeth darparwr elusennol naill ai:

i. yn canolbwyntio ar gyflawni yn effeithiol amcanion elusen arbennig neu gategori neu gategorïau arbennig o elusennau; neu

ii. yn canolbwyntio ar gefnogi effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gweinyddiad neu isadeiledd elusen neu elusennau;

AC

- os yw taliadau'n cael eu codi am ddarparu gwasanaethau, rhaid i unrhyw elw gael ei ddefnyddio ar gyfer dibenion elusennol y sefydliad yn unig; a

- rhaid i'r taliadau fod yn rhesymol a pheidio â rhwystro cwsmeriaid y bwriedir iddynt gael budd; a

- rhaid i unrhyw fudd preifat fod yn atodol i ddilyn y dibenion elusennol; a

- rhaid i wasanaethau'r sefydliad fod ar gael i unrhyw elusen sy'n gymwys i gael budd sy'n dewis manteisio arnynt.

A2. Fel rheol bydd y gwasanaethau a ddarperir yn cynnig budd i'r elusennau sy'n eu derbyn a'u buddiolwyr **naill ai** oherwydd bod y gwasanaethau wedi'u teilwra'n benodol i'w hanghenion, **neu** oherwydd eu bod wedi'u darparu am gost is nag y byddai'n rhaid i elusennau ei thalu fel arall, neu o gyfuniad o'r ddau ffactor.

A3. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o elusennau sydd â'r diben elusennol hwn:

Enghreifftiau o (i): cyflawni amcanion elusennau sy'n derbyn yn effeithiol:

a) Darparu cerbydau er mwyn galluogi elusen trychineb i ddosbarthu ei chymorth;

b) Darparu cerbydau wedi'u haddasu i ddefnyddwyr elusennau i bobl ag anableddau;

c) Darparu cyfleuster gwefan i gategori arbennig o elusennau e.e. elusennau lles anifeiliaid;

ch) Darparu cyngor ar hybu dibenion elusennol trwy ddefnyddio gwasanaethau dylunio.

Enghreifftiau o (ii): cefnogi gweinyddiad neu isadeiledd:

d) Gwasanaeth cyfrifeg i elusennau sy'n canolbwyntio ar anghenion cyfrifeg arbennig elusennau (a/neu a gafodd ei ddarparu am gost is);

dd) Rhoi cyngor ar godi arian at ddibenion elusennol;

e) Gwasanaeth rheoli buddsoddiadau i elusennau sy'n canolbwyntio ar anghenion arbennig elusennau (a/neu a gyflenwir am gost is);

f) Darparu llety a chyfleusterau eraill i elusennau, os oedd y gwasanaeth yn ceisio ateb anghenion elusennau (a/neu cafodd ei ddarparu am gost is).

Meini prawf ar gyfer gwahaniaethu rhwng darparwyr elusennol a masnachol gwasanaethau i elusennau

A4. Bydd nifer o sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau i elusennau neu sy'n hybu'r defnydd effeithiol o adnoddau elusennol yn codi ffi. Ym marn y Comisiynwyr roedd y meini prawf ar gyfer gwahaniaethu rhwng darparwr gwasanaethau elusennol a masnachol i elusennau wedi'u seilio nid cymaint ar natur y gwasanaeth a ddarperir ond yn hytrach y ffaith bod y darparwr wedi'i sefydlu i gynnig budd i elusennau ac yn gweithredu er budd y cyhoedd.

A5. Felly bydd angen i ddarparwr elusennol ddangos yn glir (a) bod angen ei wasanaethau ar elusennau a'u bod wedi'u cyfyngu iddynt, (b) ni fydd unrhyw elw yn cael ei ddosbarthu, ac (c) bod unrhyw fudd preifat yn atodol yn unig i hybu'r diben elusennol er budd i'r cyhoedd.

ATODIAD B - Hybu'r defnydd effeithiol o adnoddau at ddibenion elusennol gan gyrff elusennol ac anelusennol er budd y cyhoedd.

B1. Yn seiliedig ar yr awdurdodau cyfreithiol a bennwyd yn Atodiad C isod, yn ein barn ni mae'n elusennol i hybu neu wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd elusennau. Elfen bwysicaf y penderfyniadau hyn yw'r cysylltiad rhwng gweithgareddau sefydliad arbennig a chyflawni diben elusennol. Os yw'n elusennol i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd elusennau trwy ymgymryd â gwasanaeth sy'n darparu gweithgareddau, mae'n ymddangos nad oes unrhyw reswm pam na ddylai hybu'r defnydd effeithiol o adnoddau at ddibenion elusennol gan gyrff anelusennol fod yn elusennol hefyd, ar yr amod bod rhai meini prawf yn cael eu bodloni.

B2. Ni fyddai'n dderbyniol, yn ein barn ni, i ddatgan bod dibenion yn hybu neu'n gwella effeithiolrwydd sefydliadau sy'n ymgymryd â dibenion elusennol yn unig. Byddai hyn yn cynnig modd i'r sefydliad sy'n ceisio statws elusennol wella neu gynnig budd i sefydliadau anelusennol, ac ni fyddai hyn yn ddiben elusennol.

B3. Yn y diben hwn, rhaid dangos bod gweithgareddau'r sefydliad sy'n darparu'r gwasanaeth yn arwain yn uniongyrchol at gyflawni diben elusennol cydnabyddedig sy'n cael ei gyflawni gan y sefydliadau sy'n derbyn, megis lleddfu tlodi neu hybu adfywiad trefnol a gwledig.

B4. Er enghraifft, byddai sefydliad yn elusennol pe byddai'n lleddfu tlodi trwy wella'r systemau dyrannu tai landlord cymdeithasol cofrestredig a fyddai'n sicrhau defnydd mwy effeithiol o stoc tai ac yn sicrhau bod y nifer mwyaf o bobl mewn angen yn cael cartref ar unrhyw adeg. Yn yr achos hwn, y diben cyffredinol yw lleddfu tlodi. Gellir cyflawni hyn trwy sefydlu neu ddarparu systemau cyfrifiadurol gyda'r landlord cymdeithasol cofrestredig (a all fod yn elusen neu beidio ond sydd â'r diben elusennol o ddarparu tai ar gyfer pobl mewn angen) ac unrhyw awdurdod arall, er mwyn helpu'r sawl sy'n cael anawsterau ariannol cael hyd i lety yn gyflym ac yn effeithlon.

B5. Gall rhestr o weithgareddau a all arwain yn uniongyrchol at gyflawni diben elusennol gynnwys:

- cydlynu asiantaethau elusennol ac anelusennol sy'n bod ac sydd â'r nod cyffredin o ddarparu gwasanaethau elusennol neu roi cymorth i grŵp arbennig o bobl;

- cydgysylltu a gweithredu fel fforwm ar gyfer cyfnewid gwybodaeth rhwng, asiantaethau sy'n gweithio mewn maes penodol er mwyn adnabod bylchau yn yr amrywiaeth o wasanaethau elusennol sydd ar gael i'r grwpiau o bobl a wasanaethir;

- cynrychioli gwahanol farnau i'r rheiny sy'n llunio polisïau a chyllidwyr;

- cynrychioli barn y buddiolwyr i'r rheiny sy'n llunio polisïau a darparwyr gwasanaeth;

- darparu cyngor a gwybodaeth i asiantaethau yn y maes;

- darparu cronfeydd data neu gyfeirlyfrau, ar yr amod bod y gronfa ddata o ansawdd digonol er mwyn gallu bodloni diben elusennol[4].

B6. Yn achos sefydliadau anelusennol sy'n derbyn, yn ein barn ni, nid oes rhaid cael cysylltiad rhwng y gweithgareddau y mae'r sefydliad sy'n rhoi yn ymgymryd â nhw a chyflawni'r diben elusennol er budd y cyhoedd. Rhaid i'r cymorth a ddarperir i a thrwy asiantaeth anelusennol gael effaith uniongyrchol ar ei weithgareddau elusennol.

B7. Rhaid bod modd sicrhau bod unrhyw fuddiannau preifat i'r cyrff anelusennol hyn yn codi o ganlyniad i'r gwasanaeth a ddarperir iddynt yn atodol. Er mwyn bod yn elusennol, rhaid i sefydliad gael ei ffurfio i ddarparu budd i'r gymuned a rhaid iddo allu dangos bod, ac y bydd unrhyw fudd preifat yn parhau i fod yn rhan atodol ac angenrheidiol o ymgymryd â'i ddibenion elusennol.

B8. Mae penderfynu a yw budd preifat yn atodol neu beidio yn cael ei ystyried yn ein harweiniad **RR8: Natur Gyhoeddus Elusen**.

[4] Rhaid archwilio diffuantrwydd ac ansawdd y gwasanaethau a restrir mewn cronfa ddata neu gyfeirlyfr a rhaid defnyddio'r cyfeirlyfr fel arf i gyflawni diben elusennol e.e. cael hyd i gymorth priodol i blentyn mewn angen.

B9. Mae'n ymddangos bod budd atodol o'r fath bron yn anochel yn achos sefydliadau anelusennol sy'n derbyn y gwasanaeth hwn. Er enghraifft, gallai eu gweinyddiad gael ei wella sy'n creu mwy o elw. Fodd bynnag, ar yr amod bod y canlyniad hwn yn fudd atodol sy'n deillio ochr yn ochr â'r prif ddiben o gynorthwyo i ddefnyddio adnoddau yn fwy effeithiol i ateb anghenion y buddiolwyr elusennol, byddai hyn yn elusennol.

B10. Wrth ystyried cais gan sefydliad sy'n darparu gwasanaethau sy'n ceisio gwella'r defnydd effeithiol o adnoddau at ddibenion elusennol er budd y cyhoedd, defnyddiwn y meini prawf canlynol:

- Rhaid i'r sefydliad nodi dibenion sy'n elusennol yn unig ac sy'n dangos sut y bydd y dibenion elusennol hynny yn cael eu cyflawni. Mae hyn er mwyn i ni allu barnu a yw gweithgareddau'r sefydliad yn cael effaith uniongyrchol ar gyflawni'r dibenion elusennol hynny. (Enghraifft fyddai elusen a ffurfiwyd i helpu pobl gyda chanser a'u teuluoedd. Gall ei dibenion gael eu nodi fel "Lleddfu salwch trwy gydgysylltu â sefydliadau ac asiantaethau sy'n cynorthwyo'r rheiny a effeithir gan ganser");

- Rhaid dangos bod gweithgareddau'r sefydliad yn arwain yn uniongyrchol at gyflawni'r dibenion elusennol er budd y cyhoedd. Rhaid cael digon o dystiolaeth i ddangos hyn ym mhob achos;

- Rhaid i unrhyw fuddiannau a ddaw i unrhyw gyrff anelusennol sy'n derbyn y gwasanaethau fod yn atodol i gyflawni'r diben elusennol er budd i'r cyhoedd.

ATODIAD C - Y cefndir cyfreithiol i'r dibenion elusennol hyn

C1. Mae natur elusennol hybu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd elusennau a hybu'r defnydd effeithiol o adnoddau at ddibenion elusennol gan gyrff elusennol ac anelusennol, yn deillio o bedwerydd pennawd dosbarthiad yr Arglwydd McNaghten yn **Comisiynwyr Arbennig Treth Incwm v Pemsel [1891] 1 A C 131** fel dibenion sy'n fuddiol i'r gymuned heblaw lleddfu tlodi a hyrwyddo crefydd ac addysg.

C2. Y sail gyfreithiol dros benderfyniad y Comisiwn i dderbyn y dibenion hyn fel dibenion elusennol yw achos **Re White's Will Trusts [1951] 1 A E R 518**. Mae'r achos hwn yn dangos y gall sefydliad fod yn elusennol os yw'r gwasanaethau a ddarperir ganddo yn uniongyrchol gysylltiedig â, ac yn hybu, diben elusennol cymeradwy. Yn yr achos hwn, barnwyd bod cymynrodd i ddarparu cartref gorffwys i nyrsys yn y Royal Infirmary Sheffield yn elusennol oherwydd ei fod yn fuddiol i waith yr ysbyty a'r rheiny a oedd yn derbyn ei wasanaeth yn uniongyrchol; roedd y nyrsys yn ymgymryd â'r diben elusennol o geisio lleddfu salwch (diben elusennol cydnabyddedig).

C3. Felly, penderfynodd y barnwr "trwy rinwedd y rhodd bydd gwaith yr ysbyty yn cael ei wella o ran ei effeithlonrwydd ac mae hyn yn gwneud y rhodd yn un da." Mae hyn wedi cael ei gymryd fel y sail ar gyfer derbyn natur elusennol y diben o hybu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd elusennau (er nad yw'r achos yn cyfyngu'r rheiny sy'n derbyn i elusennau).

C4. Sefydlwyd nad oes rhaid i sefydliad weithredu'n uniongyrchol i gyflawni diben elusennol er mwyn bod yn elusennol. Mae cyfraith achosion atodol i'w gweld yn y penderfyniad i dderbyn hyrwyddo crefydd er budd y cyhoedd trwy atgyweirio persondy: **A G v Esgob Caer [1785] 1 Bro CC 444**.

C5. Yn achos **Ysbyty Llundain v IRC [1976] 1 WLR 613** roedd cysylltiad pendant yn nibenion undeb y myfyrwyr rhwng gweithgareddau cymdeithasol, diwylliannol ac athletaidd a bywyd myfyrwyr y coleg. Barnwyd bod yr undeb wedi'i sefydlu ac yn bodoli am yr unig bwrpas o gynorthwyo'r coleg meddygol yn ei ddiben elusennol o addysgu meddygaeth trwy ddarparu'r fath gyfleusterau i'r myfyrwyr, a oedd yn ddymunol er mwyn i'r coleg berfformio ei ddiben elusennol yn effeithiol.

C6. Mae **Re White's Will Trusts** hefyd yn darparu'r sail gyfreithiol ar gyfer penderfyniad y Comisiwn i dderbyn y gall fod yn elusennol i hybu er budd y cyhoedd y defnydd effeithiol o adnoddau at ddibenion elusennol sefydliadau, os ydynt yn elusennau neu beidio Ni wyddys a oedd y Royal Infirmary Sheffield, yn yr achos hwnnw, yn elusen ei hun. Y ffaith ei fod yn ymgymryd â diben elusennol sef lleddfu salwch, oedd yn gwneud y rhodd o gartref gorffwys yn elusennol gan ei fod yn gwella effeithlonrwydd y nyrsys a oedd yn ei ddefnyddio wrth ymgymryd â'r diben elusennol hwnnw.

C7. Byddai'n ymddangos fod yr egwyddor hon yn gymwys i gyrff sy'n darparu gwasanaeth sy'n bodoli diben elusennol y defnyddiwr mewn maes arbennig e.e. lleddfu tlodi.

C8. Yr elfen hanfodol yn y ddau ddiben elusennol hyn yw'r cysylltiad uniongyrchol rhwng gweithgareddau'r sefydliad sy'n darparu gwasanaeth, neu gyfleusterau neu offer, a chyflawni dibenion elusennol y sefydliadau sy'n derbyn er budd y cyhoedd.